Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Maesincla
# Safle Plas Pawb
# Ysgol Maesincla
# Caernarfon
# Gwynedd
# LL55 1DF

**Dyddiad yr ymweliad: Ionawr 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/02/2015**

## Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Maesincla wedi'i leoli ar safle 'Plas Pawb' ar dir Ysgol Gynradd Maesincla, Caernarfon yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r ardal yn drefol a chanddi lefelau uchel o her gymdeithasol ac economaidd. Mae'r lleoliad yn darparu gofal rhan-amser i blant dwy oed fel rhan o fenter 'Dechrau'n Deg' a lleoedd addysg rhan-amser i blant tair oed.

Mae'r lleoliad wedi ei gofrestru i gymryd hyd at 26 o blant fesul sesiwn ac fe gaiff plant eu derbyn yn ddwy oed. Adeg yr arolygiad, roedd 18 o blant tair oed yn cael addysg y blynyddoedd cynnar a ariennir naill ai mewn sesiwn yn y bore neu'r prynhawn.

Mae pob un o'r plant yn siarad Cymraeg fel eu mamiaith ac mae pob un ohonynt o ethnigrwydd gwyn Prydeinig. Roedd gan rai plant anghenion dysgu ychwanegol.

Mae rheolwr amser llawn ac arweinydd yn rhannu cyfrifoldeb am arwain a rheoli'r lleoliad. Mae wyth aelod o staff amser llawn, gan gynnwys arweinydd y lleoliad, ac un aelod o staff rhan-amser. Mae tri aelod o staff amser llawn yn rhoi cymorth i blant unigol. Mae gan bob un o'r staff gymwysterau a phrofiad addas mewn gweithio gyda phobl ifanc. Mae arweinydd y lleoliad wedi bod yn ei swydd er Ionawr 2014. Daeth yr arweinydd blaenorol yn arweinydd y lleoliad yn 2013 ac nid oes ganddi unrhyw gyfrifoldebau addysgu uniongyrchol.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn Ionawr 2013 a chan Estyn yn Chwefror 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd realistig mewn dysgu o'u mannau cychwyn gwahanol
- Mae medrau llythrennedd, cyfathrebu a rhifedd y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda
- Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth ddatblygol o'r gwahaniaeth rhwng da a drwg
- Mae ystod eang o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus
- Mae gan ymarferwyr berthnasoedd gweithio da iawn gyda'r plant; maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol ar y cyfan
- Mae trefniadau effeithiol ar waith i gynorthwyo plant i fwyta ac yfed yn iach
- Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- Mae rheolwr y lleoliad yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad fel amgylchedd meithringar lle mae plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac nid oes arnynt ofn gwneud camgymeriadau
- Mae ystod fuddiol o bartneriaethau yn gwneud cyfraniad pwysig at gynnydd a lles plant
- Ceir partneriaeth gref gyda rhieni a gofalwyr
- Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o hyfforddiant i wella meysydd, fel rheoli ymddygiad plant a gwella medrau corfforol plant
- Mae systemau'r lleoliad ar gyfer nodi ei gryfderau a'i meysydd i'w gwella yn datblygu'n dda
- Mae gan y lleoliad hanes da o ysgogi gwelliant parhaus

## Argymhellion

A1 Gwella ansawdd cynllunio'r cwricwlwm i ddarparu cymorth gwell ar gyfer addysgu

A2 Sicrhau bod plant yn cael eu hannog i siarad mewn brawddegau a'u bod yn cael cyfleoedd gwell i ddatrys problemau a meddwl drostynt eu hunain

A3 Gwneud defnydd gwell o asesu i nodi camau nesaf y plant mewn dysgu a chynnig her addas ar gyfer y plant mwy aeddfed ac abl

A4 Gwella ansawdd cynllunio gwelliant trwy sicrhau bod meini prawf llwyddiant yn canolbwyntio'n fanwl ar fanteision i blant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd realistig mewn dysgu o'u mannau cychwyn gwahanol. Gwnânt gynnydd da yn eu medrau personol a chymdeithasol ac wrth reoli eu hymddygiad. Mae hyn yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae medrau llythrennedd a chyfathrebu'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n ofalus yn ystod sesiynau dosbarth cyfan, fel amser stori, ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau gan ddangos mwynhad a phleser. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dilyn cyfarwyddiadau'n gywir yn ystod gweithgareddau corfforol ac wrth chwarae gemau iaith. Mae llawer ohonynt yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac yn deall diben ysgrifennu. Er enghraifft, maent yn ysgrifennu rhestrau o ddillad i'w gwisgo tu allan gan ddangos rheolaeth briodol wrth ddal pensil. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dechrau dangos diddordeb mewn print a llyfrau. Mae rhai ohonynt yn adnabod eu henwau heb gymorth oedolion ac yn dewis ymweld â'r ardal dawel i 'ddarllen' llyfrau. Mae medrau siarad plant yn datblygu mewn modd derbyniol. Mae bron pob un o'r plant yn gwneud yn siŵr bod pobl yn eu deall ac yn ymateb i gwestiynau syml yn briodol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau rhifedd cynnar gwerthfawr. Er enghraifft, mae plant yn cyfrif gwrthrychau i bump yn gywir, yn defnyddio iaith fathemategol briodol, fel mawr a bach, ac yn defnyddio dyfais electronig llaw i ddidoli siapiau dau ddimensiwn yn gywir. Mewn sesiynau grŵp mawr, gyda chymorth ymarferwr, mae llawer o blant yn cyfrif ar eu cof i 20. Mae bron pob un ohonynt yn adnabod darn ceiniog ac yn deall y gallant gyfnewid hwn am fyrbryd amser byrbryd. Mae rhai plant mwy abl yn paru'r geiriau llafar a'r symbolau ar gyfer rhifau i bump yn gywir.

Mae gan bron bob un o'r plant fedrau corfforol da. Er enghraifft, maent yn hyderus wrth bedalu a symud amrywiaeth o deganau ag olwynion yn llwyddiannus ac maent yn dechrau defnyddio offer bach gyda rhywfaint o reolaeth.

**Lles: Da**

Mae arferion sefydledig a chroeso cynnes yn helpu'r plant i ymgynefino'n gyflym ac maent yn teimlo'n ddiogel. O ganlyniad, mae plant yn datblygu hyder i roi cynnig ar brofiadau newydd, fel creu marciau gyda lolipops paent wedi rhewi neu flasu bwydydd anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dyfalbarhau â gweithgareddau am gyfnod rhesymol ac yn dangos pleser mewn gorffen tasgau. Mae'r rhan fwyaf o blant yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau estynedig, er enghraifft yn ystod amser cylch neu amser stori.

Mae bron pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth ddatblygol o’r gwahaniaeth rhwng da a drwg. Maent yn dangos ystyriaeth a pharch at ei gilydd ac at oedolion yn y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf o blant yn cymryd eu tro ac yn rhannu teganau ac offer yn dda. Mae llawer o blant yn datblygu medrau cymdeithasol gwerth chweil. Er enghraifft, maent yn gwybod ei bod yn bwysig edrych ar rywun pan fyddwch yn siarad ag ef a gwrando’n ofalus ar yr hyn y mae’n ei ddweud.

Mae plant yn datblygu medrau annibynnol priodol. Er enghraifft, maent yn helpu eu hunain i fyrbrydau ac yn gwneud dewisiadau am ble a gyda phwy maent eisiau chwarae.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**
Mae ystod eang o brofiadau dysgu dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb y rhan fwyaf o blant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae plant yn dysgu am y byd o’u cwmpas trwy ymweliadau a theithiau cerdded gwerth chweil yn yr ardal. Mae ymwelwyr, fel ffermwr lleol, yn gwella dealltwriaeth plant o anifeiliaid ac yn annog eu medrau siarad a gwrando yn dda. Ceir cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau corfforol plant trwy sesiynau ioga a chwarae’n rheolaidd yn yr awyr agored. Mae’r lleoliad yn datblygu medrau personol a chymdeithasol plant yn llwyddiannus iawn.

Ceir darpariaeth addas i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Caiff plant gyfleoedd rheolaidd i gyfrif ac adnabod rhifau. Er enghraifft, maent yn cyfrif nifer y plant sy’n bresennol bob dydd ac yn pysgota am rifau yn yr hambwrdd dŵr. Rhoddir cyfleoedd rheolaidd a defnyddiol i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau creu marciau ac mae geiriau printiedig yn hynod weladwy. Fodd bynnag, nid yw’r lleoliad yn cynllunio’n ddigon da i ymestyn medrau, gwybodaeth a hyder plant mwy aeddfed a mwy abl. Mae hyn yn golygu nad yw’r plant hyn bob amser yn gwneud y cynnydd y dylent, yn enwedig yn eu medrau siarad.

Caiff plant gyfleoedd gwerth chweil i ddysgu am eu treftadaeth Gymreig. Er enghraifft, mae plant yn gwisgo gwisg Gymreig i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a dysgu am Santes Dwynwen.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth gadarn o arfer yn y Cyfnod Sylfaen. Defnyddiant ystod addas o strategaethau i annog a chymell plant i ddysgu. Er enghraifft, defnyddiant amser cylch yn briodol i annog medrau gwrando da plant tra bod gwaith grŵp bach yn annog medrau personol a chymdeithasol plant yn dda. Yn gyffredinol, mae sesiynau’n symud yn fywiog, gan ennyn diddordeb y plant ac ymgysylltu â nhw. O bryd i’w gilydd, mae plant yn eistedd am gyfnodau rhy hir, ac o ganlyniad, maent yn aflonyddu ac nid ydynt yn talu sylw.

Mae gan ymarferwyr berthnasoedd gweithio da iawn gyda’r plant. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn rheoli eu hymddygiad yn effeithiol ar y cyfan.

Mae gweithgareddau fel arfer yn meithrin diddordebau a phrofiadau plant yn briodol. Fodd bynnag, nid yw gweithgareddau bob amser yn ddigon heriol ar gyfer pob plentyn ac nid yw ymarferwyr yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i ymestyn medrau siarad, meddwl neu fedrau datrys problemau plant. Mewn rhai achosion, nid yw ymarferwyr yn caniatáu i blant fod yn ddigon annibynnol, er enghraifft wrth wisgo eu cotiau neu weini eu hunain amser byrbryd.

Mae gan y lleoliad ystod ddefnyddiol o weithdrefnau asesu ar waith. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn defnyddio nodiadau gludiog i gofnodi pan fydd plant yn dweud rhywbeth o bwys neu'n dangos medr neu gysyniad newydd. Yn ychwanegol, mae 'Llyfrau trysor' yn darparu tystiolaeth ffotograffig anodedig ddefnyddiol o ddysgu plant unigol ar draws pob maes dysgu. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob amser yn defnyddio asesu yn ddigon da i nodi a chynllunio'n glir ar gyfer camau nesaf plant mewn dysgu.

Mae'r lleoliad yn hysbysu rhieni'n dda am gynnydd eu plentyn.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan y lleoliad drefniadau effeithiol i gynorthwyo plant i fwyta ac yfed yn iach. Er enghraifft, mae ymarferwyr yn annog plant i fwynhau bwyta ffrwythau yn eu 'caffi' poblogaidd. Maent yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i blant wneud ymarfer corff yn rheolaidd y tu mewn a'r tu allan. Mae hyn yn datblygu medrau cydsymud plant yn dda ac yn eu hannog i fod yn gorfforol iach.

Mae ymarferwyr yn cynllunio gweithgareddau gwerth chweil i feithrin gwerthoedd a synnwyr o'r hyn sy'n dda ac yn ddrwg. Maent yn annog plant i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, rhannu offer a gofalu am adnoddau. Mae ystod fuddiol o brofiadau dysgu yn meithrin datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant yn dda. Er enghraifft, mae plant yn dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn cymryd rhan mewn codi arian ar gyfer elusennau. Mae'r lleoliad yn hyrwyddo ymwybyddiaeth ddiwylliannol plant yn briodol, er enghraifft trwy fynychu'r Ŵyl Feithrin flynyddol. Cyfyngedig yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am faterion cynaliadwy, fel ailgylchu a chompostio gwastraff bwyd.

Ceir prosesau priodol i gynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r lleoliad yn manteisio ar gymorth proffesiynol i blant a'u teuluoedd pan fydd angen ac yn defnyddio hyn yn effeithiol i gynorthwyo anghenion penodol plant.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymarferwyr ychwanegol i roi cymorth i blant unigol, annog medrau iaith plant a rheoli eu hymddygiad. Mae cynlluniau chwarae unigol addas ar waith i gefnogi cynnydd plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Fodd bynnag, nid yw targedau bob amser yn ddigon penodol i alluogi gweithwyr cymorth i asesu cynnydd plant yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle gall pob plentyn fanteisio'n gyfartal ar holl feysydd darpariaeth y lleoliad. Mae ymarferwyr yn arwain trwy esiampl o ran annog plant i ddangos parch a goddefgarwch tuag at ei gilydd.

Mae adeilad ac ardal awyr agored y lleoliad yn ddiogel ac yn cael eu cynnal yn dda ar y cyfan. Ceir digonedd o adnoddau o ansawdd da sy'n gweddu'n dda i anghenion plant.

Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd da o'r lle sydd ar gael dan do. Mae ardaloedd dysgu wedi'u dynodi'n glir yn ei gwneud yn hawdd i blant ddefnyddio adnoddau a meithrin eu hannibyniaeth yn dda. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd rheolaidd o'i hardal awyr agored i ddatblygu medrau a medrusrwydd corfforol plant. Er enghraifft, mae offer awyr agored yn galluogi plant i falansio a dringo ac mae teganau ag olwynion yn annog medrau cydsymud plant yn dda. Mae cyflwyno 'blychau dysgu' gyda ffocws ar feysydd dysgu penodol wedi gwella ansawdd y chwarae a phrofiadau dysgu plant fel hyrwyddo eu datblygiad mathemategol. Ceir cyfleoedd cyfyngedig i blant ddysgu am y byd naturiol trwy dyfu planhigion a gofalu amdanynt.

Mae ymarferwyr yn trefnu ymweliadau gwerth chweil â'r ardal leol i wella profiadau plant. Er enghraifft, fe wnaeth ymweliadau â fferm leol wella gwybodaeth a dealltwriaeth plant o'r byd y maent yn byw ynddo.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae rheolwr y lleoliad yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y lleoliad fel amgylchedd meithringar lle mae plant yn hapus, yn awyddus i ddysgu ac nid ydynt yn ofni gwneud camgymeriadau. Mae gwerthoedd craidd, fel parch, caredigrwydd ac anwyldeb, yn hanfodol. Mae ymarferwyr yn rhannu'r weledigaeth hon ac yn gweithio'n galed i'w gwireddu. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar agweddau plant a'r ffordd y maent yn ymddwyn.

Mae cyfarfodydd staff rheolaidd yn atgyfnerthu arfer dda ac yn atgoffa ymarferwyr am ddisgwyliadau'r rheolwr, fel annog plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Mae prosesau priodol ar waith i reoli perfformiad staff ac mae staff yn glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r rheolwr yn gweithio'n llwyddiannus gyda Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli i sicrhau bod anghenion hyfforddi staff yn cael eu bodloni'n briodol. Mae amser digyswllt ar gyfer arweinydd y lleoliad yn sicrhau cydbwysedd effeithiol o brofiadau dysgu ar draws y cwricwlwm.

Mae arweinydd y lleoliad a'r dirprwy yn darparu arweinyddiaeth addas o ddydd i ddydd. Er enghraifft, maent yn rhagweithiol wrth fodelu'r defnydd o amser cylch ac amser stori i annog medrau gwrando plant.

Mae'r rheolwr yn hysbysu'r pwyllgor rheoli yn briodol am faterion bob dydd, fel anghenion cyllid, staffio ac adnoddau. Yn gyffredinol, nid ydynt yn cael digon o wybodaeth am effaith hyfforddiant a gwariant ar ddeilliannau ar gyfer plant. O ganlyniad, nid ydynt bob amser yn gallu arfarnu'n effeithiol p'un a yw penderfyniadau gwriant yn werth chweil.

Mae'r lleoliad wedi gweithio'n dda gyda thîm 'Dechrau'n Deg' yn 'Plas Pawb' i leihau'r anghydraddoldeb yn lleferydd ac iaith plant i wella ymddygiad plant pan fyddant yn dechrau yn y lleoliad. O ganlyniad, erbyn i blant fod yn dair oed, mae gan y rhan fwyaf ohonynt y medrau sydd eu hangen i fanteisio'n llawn ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae systemau'r lleoliad ar gyfer nodi ei gryfderau a'r meysydd i'w gwella yn datblygu'n dda. Mae'r rheolwr yn monitro gwybodaeth am gynllunio ac asesu yn anffurfiol. Mae cyfarfodydd wythnosol rhwng y rheolwr a'r arweinydd a chyfarfodydd staff rheolaidd yn sicrhau bod y lleoliad yn mynd i'r afael â materion o ddydd i ddydd yn gyflym ac yn nodi blaenoriaethau tymor hwy ar gyfer gwella. Er enghraifft, roedd yr arweinydd yn bryderus fod adnoddau a phosteri wal weithiau'n tarfu ar blant yn y gornel lyfrau. Aeth yr ymarferwyr â'r adnoddau a'r posteri ychwanegol oddi yno i greu amgylchedd tawelach. O ganlyniad, roedd plant yn fwy sylwgar yn ystod amser stori. Y llynedd, nododd y lleoliad nad oedd digon o rieni a gofalwyr yn mynychu cyfarfodydd i drafod cynnydd eu plentyn. Mae cyflwyno amseroedd cyfweld hyblyg wedi arwain at welliant sylweddol mewn presenoldeb.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl a chywir ar y cyfan. Mae cynllun datblygu presennol y lleoliad wedi'i seilio'n gadarn ar feysydd y mae eisiau eu gwella ac yn cysylltu'n briodol â'i adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn cynnwys costau, a graddfeydd amser a meini prawf llwyddiant perthnasol. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn nodi llwyddiant yn ddigon da wrth gynllunio gwelliant o ran deilliannau cadarnhaol ar gyfer plant. O bryd i'w gilydd, mae hyn yn ei gwneud yn anodd barnu effeithiolrwydd y camau a gymerwyd.

Mae gan y lleoliad hanes da o ysgogi gwelliant parhaus. Er enghraifft, mae cyflwyno blychau dysgu wedi gwella profiadau dysgu plant yn yr awyr agored, ac o ganlyniad, mae plant yn datblygu medrau cyfrif gwell.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod fuddiol o bartneriaethau yn gwneud cyfraniad pwysig at gynnydd a lles plant. Ceir partneriaeth gref gyda rhieni a gofalwyr. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ansawdd y gofal a'r pryder a ddangosir gan ymarferwyr tuag at eu plant. Mae'r lleoliad yn eu hysbysu'n dda am yr hyn y mae eu plant yn ei ddysgu trwy gyswllt personol dyddiol, llyfrau cyswllt y cartref a'r lleoliad a chyfarfodydd ffurfiol rheolaidd. Mae'r lleoliad yn annog rhieni a gofalwyr i ddangos diddordeb brwd mewn cefnogi dysgu gartref. Er enghraifft, caiff rhieni eu hannog i fenthyca llyfrau darllen bob wythnos a chwblhau gweithgareddau syml gartref, fel dilyn patrymau, cyfrif gwrthrychau ac enwi siapiau.

Mae'r bartneriaeth rhwng y lleoliad a'r ysgol gynradd sy'n ei fwydo yn gadarn. Mae arweinydd y lleoliad yn gwneud defnydd priodol o'r arbenigedd yn yr ysgol, er enghraifft o ran nodi deunyddiau perthnasol i blant ifanc eu defnyddio ar gyfrifiadur llechen. Ceir cysylltiadau gwerthfawr ag uned asesu'r blynyddoedd cynnar i gefnogi trosglwyddo plant ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth werth chweil gyda'r gymuned.  Mae cynnwys pobl leol ac ymweliadau â'r gymuned yn cyfrannu'n dda at ddealltwriaeth plant o ble maent yn byw a phobl yn y gymuned sy'n eu helpu nhw.

Ceir trefniadau partneriaeth defnyddiol gyda'r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin, sy'n fuddiol i'r plant.

**Rheoli adnoddau:  Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o staffio ac adnoddau i gefnogi dysgu plant yn dda.  Mae arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sydd â chymwysterau addas ac wedi'u hyfforddi'n dda.

Mae ymarferwyr yn dangos ymrwymiad cryf i hunanwella trwy fynychu hyfforddiant a dysgu oddi wrth bobl eraill.  Gwnânt ddefnydd da o'r hyfforddiant hwn, er enghraifft i wella meysydd fel rheoli ymddygiad plant a datblygu medrau corfforol plant.

Mae gan reolwyr ddealltwriaeth briodol o'r gyllideb ac mae ganddynt systemau addas ar waith ar gyfer adolygu gwariant yn gyson.

O ganlyniad i safonau da'r plant ac arweinyddiaeth gadarnhaol, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

*Mae’n dynodi’r meincnod – dyma yw cyfanswm yr holl ymatebion er Medi 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 16 | 15<br>94% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 69% | 26% | 0% | 0% | | |
| Teaching is good. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r addysgu’n dda. |
| | | 79% | 18% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 82% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 16 | 14<br>88% | 2<br>12% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 73% | 22% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 65% | 24% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 16 | 15<br>94% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 63% | 30% | 5% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 19% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 16 | 13<br>81% | 3<br>19% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 62% | 30% | 3% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 16 | 15<br>94% | 1<br>6% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 70% | 24% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 61% | 30% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 16 | 16<br>100% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

## Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mrs Beverley Jenkins | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru elwa ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |